GELLIDEG FOUNDATION

Canol-y-Bryn
The Wellbeing Centre
Heol Tai Mawr
Gellideg
Merthyr Tydfil
CF48 1ND
(01685) 383 929

**Pecyn Recriwtio Cydlynydd Lles Grŵp Sefydliad Gellideg**

## Amdanom ni

Mae GSG (GFG) yn sefydliad cymunedol ym Merthyr Tudful, wedi'i leoli ar ystâd sydd ymhlith y 10% isaf yng Nghymru. Sefydlwyd y GSG ym 1998 pan ddaeth mamau at ei gilydd i wella bywydau'r bobl ifanc ar yr ystâd. Rydym bellach yn elusen sefydledig, sy'n darparu cefnogaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed, ledled y fwrdeistref. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod wedi'n gwreiddio'n ddwfn yn y gymuned ac yn ymateb i anghenion lleol. Mae'n datblygiad cymunedol wedi'i seilio ar brofiad byw ac mae gennym gysylltiadau cryf â'r rhai mwyaf difreintiedig yn y gymuned. Mae gennym 10 aelod o staff, 20 a mwy o wirfoddolwyr ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau ar draws pob sector.

## Blaenoriaethau

Mae ein holl weithgareddau'n cydweithio'n gyfannol i:

- Alluogi datblygiad y blynyddoedd cynnar a chryfhau cefnogaeth i deuluoedd
- Darparu cymorth yn ystod yr argyfwng costau byw
- Darparu gweithgareddau lles sy'n hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol
- Bod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol
- Ysbrydoli a hyrwyddo pobl ifanc

Mae cyfoeth o wybodaeth ar ein gwefan ddwyieithog – www.gellideg.net a'n tudalen FaceBook; Grŵp Sefydliad Gellideg.

Er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau hyn rydym yn cyflwyno prosiect newydd; Byw'n Dda, Byw'n Hirach, a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

### Pwrpas y Cydlynydd Lles

Mae hon yn rôl newydd sydd wedi'i datblygu yn dilyn ymgynghoriad helaeth.

Mae tair elfen i Byw'n Dda, Byw'n Hirach, Lles ym Merthyr Tudful. Gyda'i gilydd, mae gan yr elfennau hyn y potensial i newid canlyniadau iechyd yn y fwrdeistref. Bydd y Cydlynydd Lles yn ymwneud â chyflwyno dwy o elfennau'r rhaglen, sef,

1) **Gweithdai gweithredu wythnosol** yn seiliedig ar"Just One Thing" gan D r Michael Mosley – creu grwpiau deillio newydd dan arweiniad gwirfoddolwyr o fewn GSG, arwyddo aelodau o'r gymuned i grwpiau eraill ledled Merthyr Tudful ac ysgogi ymgysylltiad mewn gweithdai coginio yn y Ganolfan Lles a grwpiau gweithgarwch corfforol yn y Ganolfan ac ar draws y fwrdeistref.

2) **Gweithdai coginio wythnosol yn y Ganolfan Lles sy'n dangos sut i goginio prydau maethlon rhad, o'r dechrau.**

### Gweithdai Gweithredu Wythnosol

Bydd y Cydlynydd Lles, yn cyflwyno aelodau'r gymuned i newidiadau ffordd o fyw syml sy'n cael effeithiau trawsnewidiol ar iechyd.

Bydd y Cydlynydd yn cynnal gweithdai gweithredu wythnosol yn dilyn y dysgu o "Just One Thing" gan Dr Michael Mosley. Gall yr ymyriadau hyn sy'n rhoi hwb i iechyd godi hwyliau, lleihau llid, gostwng pwysedd gwaed, rhoi hwb i'r system imiwnedd a helpu â cholli pwysau ymhlith effeithiau cadarnhaol eraill.

Bydd y gweithdai gweithredu yn hwyliog, archwiliadol, deinamig ac ymarferol. Anogir cyfranogwyr i ymarfer yr ymyriadau a rhannu canlyniadau. Bydd y Cydlynydd Lles yn rhedeg y gweithdai gweithredu ac yn cael ei gynorthwyo gan y Swyddog Ymgysylltu a'r Swyddog Gwirfoddoli a fydd yn ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned ac yn recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr.

**Gweithdai Coginio Wythnosol**

Bydd y Cydlynydd Lles yn defnyddio pob cyfle i gyflwyno aelodau'r gymuned i newidiadau bach i ddeiet a maeth er mwy cynorthwyo pawb i gyflawni gwell lles.

Bydd y Cydlynydd yn cynnal gweithdai coginio cyfranogol wythnosol i uwchsgilio aelodau'r gymuned mewn sgiliau coginio ac ymwybyddiaeth maeth. Bydd gweithdai yn canolbwyntio ar goginio o'r dechrau, creu prydau a byrbrydau iach o gynhyrchion y Pantri Cymunedol, creu prydau maethlon ar gyllideb, datblygu sgiliau coginio allweddol.

Ar hyn o bryd yr unig ddarparwr ar gyfer dosbarthiadau coginio ym Merthyr Tudful yw Pipyn sy'n cynnal dosbarthiadau i deuluoedd â phlant 3 – 7 oed. Byddwn yn canolbwyntio ar oedolion heb blant yn yr ystod oedran hon a phobl ifanc 11 oed i fyny.

**Enghreifftiau o Ddosbarthiadau coginio wythnosol Blwyddyn 1:**

Dydd Mawrth 9.30-11.30am, Coginio Pantri, 2-4.30pm Grŵp Coginio Oedolion

Dydd Mercher 2-4pm Grŵp coginio gofalwyr ifanc a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio

Dydd Mercher 5.30 – 7pm Coginio ieuenctid 11 oed a hŷn

Bydd y Cydlynydd Lles yn rhedeg y gweithdai coginio gyda chymorth y Swyddog Ymgysylltu a'r Swyddog Gwirfoddoli a fydd yn ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned ac yn recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr.

**<u>Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau Cydlynydd Lles</u>**

1) Integreiddio opsiynau bwyd iachach i'r gweithgareddau presennol yn amserlen wythnosol GSG

2) Cyflwyno dosbarthiadau coginio newydd trwy gydol yr wythnos i bob oed 11 oed ac hŷn

3) Cynorthwyo gydag elfen bwyd iach cynlluniau chwarae'r haf

4) Cyflwyno gweithdai gweithredu yn seiliedig ar Just One Thing a chefnogi'r gwaith o ddatblygu grwpiau tymor hwy newydd sy'n codi o'r gweithdai hyn

5) Cynorthwyo gydag asesiadau iechyd gwaelodlin ac olrhain cynnydd

6) Rheoli'r cyfleusterau arlwyo yn y Ganolfan Lles yn unol â gofynion cyfreithiol Safer Food Better Business.

**<u>Dyletswyddau Sefydliadol Cydlynydd Lles</u>**

Rhannu gwerthoedd yr elusen a sicrhau eich bod ar flaen y gad o ran cyflawni'ch gwaith a'ch perthynas â chydweithwyr yn fewnol ac yn allanol.

Cyflawni pob dyletswydd yn unol â holl bolisi a gweithdrefnau Grŵp Sefydliad Gellideg a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol.

**Manyleb / Cymwysterau Personol**

**Sgiliau a Phrofiad**
**H = Hanfodol D = Dymunol**

- Angerdd dros gefnogi plant a theuluoedd (H)
- Profiad o ymgysylltu â'r gymuned neu hyrwyddo iechyd (H)
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf (H)
- Cefndir neu gymhwyster mewn maeth, iechyd, gofal cymdeithasol, neu faes cysylltiedig (H)
- Y gallu i weithio'n effeithiol gydag ystod amrywiol o bobl a theilwra cymorth i amgylchiadau teuluol unigol (H)
- Profiad o ddarparu cyngor a chymorth (H).
- Profiad o flaenoriaethu tasgau mewn amgylchedd prysur (H).
- Profiad o weithio'n annibynnol a defnyddio menter eich hun (H).
- Profiad o weithio ar y cyd â gwasanaethau trydydd sector a statudol (D).
- Cymhwyster hylendid bwyd Lefel 3 (D).

**Priodoleddau / Galluoedd Personol**
- Y gallu i gysylltu, uniaethu ac ymateb i bobl â heriau lles (H).
- Y gallu i addasu eich sgiliau cyfathrebu (llafar ac ysgrifenedig) i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth (H).
- Gwrandäwr gweithredol, tosturiol, ac emosiynol ddeallus (H).
- Hunan-gymhelliant a'r gallu i ddangos sgiliau rheoli amser a blaenoriaethu da (H).
- Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg (D).

**Telerau ac Amodau**
Teitl y swydd: **Cydlynydd Llesiant**
Cyflog: £28590 y flwyddyn
37 awr yr wythnos – bydd angen gweithio dros y penwythnos a gyda'r nos yn achlysurol.
Lleoliad: Y Ganolfan Lles, Gellideg, Merthyr Tudful
Atebol i: Cyd-gyfarwyddwyr.
Gwyliau blynyddol: 25 diwrnod + Gwyliau Banc ac un diwrnod ychwanegol ar ôl pob blwyddyn gyflawn o wasanaeth, hyd at uchafswm o 7 diwrnod ychwanegol.
Buddion eraill: Rydym yn darparu cyfraniad pensiwn cychwynnol o 7%, gan godi bob blwyddyn hyd at uchafswm o 12% o gyfraniad.

**Sut i wneud cais**
I wneud cais am rôl y Cydlynydd Lles, anfonwch CV a llythyr eglurhaol at marcus@gellideg.net erbyn **12pm ar Ddydd Iau Hydref 2il 2025.** Rhaid i'ch CV ddangos sut rydych chi'n bodloni elfennau 'Hanfodol' manyleb y person a pham rydych am weithio yn y

rôl hon yng Ngrŵp Sefydliad Gellideg. Fel arall, ni fydd yn cael ei ystyried. **Yn y llythyr eglurhaol,** dywedwch wrthym amdanoch chi'ch hun a rhowch ychydig o fanylion am ba fyrbrydau iach a phrydau ysgafn y byddech chi'n eu harddangos i bobl ifanc ac i aelodau o'r gymuned i gefnogi bwyta'n iachach.

Byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr ar y rhestr fer i drefnu cyfweliad dros y ffôn. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu trwy e-bost. Bydd dyddiadau cyfweliadau yn dibynnu ar argaeledd y panel cyfweld ac ymgeiswyr